# DAVIES, RHYS JOHN (1877 - 1954), gwleidydd a swyddog undeb llafur

**Enw:** Rhys John Davies
**Dyddiad geni:** 1877
**Dyddiad marw:** 1954
**Priod:** Margaret Ann Davies (née Griffiths)
**Rhiant:** Ann Davies (née Griffiths)
**Rhiant:** Rhys Davies
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwleidydd a swyddog undeb llafur
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Walter Thomas Morgan

Ganwyd 16 Ebrill 1877 yn Llangennech, Sir Gaerfyrddin, mab Rhys Davies, gweithiwr yn y diwydiant alcam, a brodor o Abergorlech, ac Ann (ganwyd Griffiths), ei wraig, a hanai o Brechfa, ac a fu farw yn 34 blwydd oed wedi geni 11 o blant. Addysgwyd Rhys John yn ysgolion elfennol cenedlaethol a Phrydeinig Llangennech, cyn mynd am dair blynedd yn was ffarm ger ei gartref. Yna symudodd i Gwm Rhondda at ei frawd a gweithio am ddeng mlynedd mewn pyllau glo yn Ferndale a Thonpentre. Yn 1901 fe'i penodwyd yn gyfrifydd i gymdeithas gydweithredol y Ton. Ymroddodd i drefnu'r Amalgamated Union of Co-operative Employees yn ne Cymru. Symudodd i Fanceinion yn 1906 yn swyddog amser llawn i'r undeb hwnnw, a adwaenid yn ddiweddarach fel NUADW (National Union of Allied and Distributive Workers). Yn 1910 cyhoeddodd ar y cyd â Joseph Hallsworth (a urddwyd yn farchog yn ddiweddarach, ac a ddaeth yn un o arweinwyr enwocaf yr undebau llafur) lyfr dan y teitl *The working life of shop assistants* yn trafod cyflogau isel ac amodau gwaith truenus gweithwyr y diwydiant hwnnw. Yr oedd yn awdurdod ar yswiriant cymdeithasol ac ar ôl i ddeddf yswiriant cenedlaethol ddod i rym yn 1911 arbenigodd ymhellach ar y wedd hon ar waith yr undeb, a daeth yn ysgrifennydd 'cymdeithas gydnabyddedig' y NUADW. Yr oedd yn aelod cynnar o'r I.L.P. ac ymdaflodd yn frwd i weithgareddau'r mudiadau llafur ac undebol ym Manceinion. Yn 1913 etholwyd ef ar gyngor y ddinas ac yn ystod y deng mlynedd nesaf bu'n aelod o'r awdurdod addysg ac o bwyllgor yswiriant Manceinion. Bu'n llywydd Plaid Lafur etholaeth Manceinion a Salford, cyngor undebau Llafur Manceinion a Salford, a Phlaid Lafur etholaeth Withington. Yn 1918 bu'n ymgeisydd Llafur aflwyddiannus yn West Salford, ond enillodd sedd Westhoughton mewn is-etholiad yn 1921, a'i chadw hyd ei ymddeoliad o'r Senedd yn 1951. Yn 1924 fe'i penodwyd yn is-ysgrifennydd yn y Swyddfa Gartref yn llywodraeth gyntaf y Blaid Lafur. Cyflawnodd ei orchwylion yn fedrus a chydwybodol ond nid oedd bod yn weinidog y Goron yn gydnaws â'i anian. Golygai fynych gyfaddawdu ag egwyddorion, peth nad oedd yn hawdd iddo. Deilliai ei sosialaeth yn fwy o deimlad crefyddol a dyngarol nag o ystyriaethau athrawiaethol. Yr oedd yn heddychwr digyfaddawd erioed. Yr oedd yn hynod boblogaidd yn ei etholaeth ymysg pobl a edmygai ei ddidwylledd a'i onestrwydd, serch iddynt anghytuno'n fynych â'i syniadau ar ddirwest a heddychiaeth. Daeth yn seneddwr dawnus ac yn feistr ar drefniadaeth y T . Bu am flynyddoedd lawer yn gyd-ysgrifennydd British Group of the Parliamentary Union ac yn 1945 etholwyd ef yn llywydd y corff hwnnw. Yn y cyswllt hwn, ac ar achlysuron eraill, ymwelodd â nifer fawr o wledydd y byd.

Er iddo fyw ym Manceinion am 45 mlynedd cyn ymddeol i Borthcawl cadwodd gysylltiad agos â'i famwlad ar hyd yr amser. Nid yn unig yr oedd yn siaradwr Cymraeg huawdl ond cyfrannai'n aml i'r cyfnodolion, yn enwedig i'r *Cymro* a'r *Tyst*. Cyhoeddodd ddetholiadau o'r erthyglau hyn mewn dwy gyfrol glawr-papur *Y seneddwr ar dramp* (1934) yn disgrifio ymweliadau â gwledydd tramor, a'i argraffiadau ohonynt, a *Pobl a phethau*, manion bywgraffyddol diddorol ac amryfal atgofion. Cyhoeddodd nifer o bamffledi, gan gynnwys *Y Cristion a rhyfel* (Pamphledi Heddychwyr Cymru III) yn 1941.

Yr oedd yn gerddor brwdfrydig ac arweiniai'r gân yn aml yn ei gapel, Bootle End (A), Manceinion. Gwahoddid ef ar brydiau i arwain cymanfaoedd canu yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod streic y glowyr yn 1898 ffurfiodd gôr o 25 o leisiau yn y Rhondda i deithio'r wlad i gasglu arian i helpu teuluoedd y streicwyr.

Yn 1902 priododd â Margaret Ann Griffiths, athrawes gwyddor t yn Nhonpentre, a bu iddynt dri mab. Brawd iddo oedd y bardd-bregethwr T. Cennech Davies (1875 - 1944; gweler David J. Thomas, *Bywyd a gwaith Cennech Davies*, 1949). Bu farw yn Mhorth-cawl 31 Hydref 1954. Collasai ei wraig ryw flwyddyn cyn hynny.

## Awdur

**Walter Thomas Morgan**, (1912 - 1990)

## Ffynonellau


*Who was who?*

*Who's who in Wales* (1921, 1933, 1937)

*The Times*, 2 Tachwedd 1954

*Western Mail*, 1 Tachwedd 1954

Rhys J. Davies, *Pobl a Phethau* (Dinbych 1943) (1943)

*Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price*

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 43023905

Wikidata: Q7321773

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu